EICH BBC EICH BARN

Bob deng mlynedd, cynhelir adolygiad o bopeth y mae'r BBC yn ei wneud a sut y mae'n cael ei redeg. Mae'n bryd cychwyn y broses eto.

Hoffem i'r 10 mlynedd nesaf fod y 10 mlynedd gorau hyd yn hyn ac mae angen eich syniadau chi arnom i wireddu hynny.

Yr adolygiad hwn o Siarter Frenhinol y BBC yw'ch cyfle chi i ddweud wrth y Llywodraeth yr hyn yr ydych yn ei hoffi am y BBC a'r hyn yr hoffech ei newid. Gallwch wneud sylwadau am unrhyw beth y mae'r BBC yn ei wneud – teledu, radio, y rhyngrwyd, neu hyd yn oed pethau a werthir gan y BBC fel DVDs, cylchgronau a theganau.

Mae'r byd teledu a radio wedi newid llawer ers y tro diwethaf yr adolygwyd y BBC yn y 1990au. Y pryd hwnnw, nid oedd teledu digidol yn bodoli. Heddiw, mae dros 50% o gartrefi'r DU yn gallu manteisio ar y gwasanaeth ac ar ddysenni o sianelau. Y pryd hwnnw, dim ond 4% a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn eu cartrefi. Heddiw, mae'r ffigwr hwn wedi codi i 50% hefyd. Yn ogystal â hyn, os ystyrir y setiau radio digidol newydd yn y siopau, gellir gweld bod cannoedd – miloedd hyd yn oed – o ffyrdd newydd o gael adloniant, newyddion a chwaraeon.

Felly a ddylai'r BBC newid? Ac os dylai, sut? Dyma'r hyn yr hoffem i chi ddweud wrthym.

Rydym wedi paratoi rhai cwestiynau i'ch helpu i feddwl am y BBC, ond gallwch fynegi barn am unrhyw beth y mae'r BBC yn ei wneud.

anfonwch eich safbwyntiau atom

Anfonwch e-bost atom
bbccharterreview@culture.gsi.gov.uk

neu anfonwch lythyr at:
BBC Charter Review Consultation
Department for Culture,
Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

Neu ffoniwch
020 7211 6418

Hoffem gynnwys eich ymateb ar y wefan www.bbccharterreview.org.uk. Os nad ydych yn dymuno i ni wneud hyn, dywedwch wrthym.

Gallwch weld adroddiad llawn y Llywodraeth am yr adolygiad o siarter y BBC ar y rhyngrwyd.

Y cyfeiriad yw:
www.bbccharterreview.org.uk

Dyluniwyd gan Rare Corporate Design, Llundain

Paratowyd testun y fersiwn hwn i bobl ifanc y cyd ag Ymgyrch UWhat? Children's Rights Alliance for England. Nid yw hyn yn golygu bod Children's Rights Alliance for England o reidrwydd yn cytuno â'r holl bwyntiau yn y ddogfen ymgynghorol hon.

PP641. DCMS. Ionawr 2004.

Department for Culture, Media and Sport

Ymgynghoriad cyhoeddus ar adolygu Siarter y BBC

eich BBC eich barn

EICH BBC EICH BARN

cwestiynau allweddol

• Beth yw'r pethau yr ydych yn eu hoffi neu'r pethau nad ydych yn eu hoffi am y BBC? Beth ydych chi'n ei wylio ar y teledu neu'n gwrando arno ar y radio? Chwaraeon? Newyddion? Adloniant? A ydych yn defnyddio gwefan y BBC?

• Os ydych yn byw yng Nghymru, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, a ydych yn hoffi'r ffordd y mae'r BBC yn dweud pethau wrthych am y fan lle'r ydych yn byw?

• Os ydych yn byw yn Lloegr, a yw'r BBC yn rhoi digon o wybodaeth i chi am eich rhanbarth?

• A oes gennych unrhyw gyngor am y ffordd orau y gall y BBC fanteisio ar dechnoleg newydd? Sut ddylai'r BBC ddefnyddio'r rhyngwyd neu deledu a radio digidol? Pa dechnoleg arall y gallai'r BBC ei defnyddio'n well yn eich barn chi?

• A ddylai'r BBC barhau i werthu pethau (fel DVDs, cylchgronau, teganau)?

• Sut ddylem dalu am y BBC? Ai'r drwydded yw'r ffordd orau? A allwch chi feddwl am ffyrdd eraill?

• Sut mae gwneud yn siŵr bod y BBC yn gwrando ar y cyhoedd? A ddylech chi ymwneud yn fwy â'r penderfyniad am yr hyn y mae'r BBC yn ei roi ar y teledu neu'r radio? Sut?

Dywedwch wrthym am unrhyw safbwyntiau eraill sydd gennych am y BBC.

A oes gennych ragor i'w ddweud?

ffeithiau am y bbc

Beth mae'r BBC yn ei wneud?

Beth yw ystyr 'BBC'?
British Broadcasting Corporation (Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig)

Beth yw Siarter Frenhinol y BBC?
Mae Siarter Frenhinol y BBC yn ddogfen a lofnodir gan y Frenhines. Ceir cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r BBC hefyd ac mae'r dogfennau hyn yn nodi'r rheolau ar gyfer yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud a lle y mae'n cael ei arian.

Nid yw'r rheolau yn sôn am raglenni teledu neu radio penodol – y bobl sy'n gweithio yn y BBC sy'n gyfrifol am hyn – ond mae'r rheolau yn gwneud yn siŵr bod y BBC yn creu rhaglenni sy'n apelio i boblogaeth amrywiol y DU.

Daw'r Siarter Frenhinol i ben bob 10 mlynedd fel arfer.

Beth mae'r BBC yn ei wneud?

- Gwasanaethau yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau – BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a BBC English Regions.
- Wyth sianel deledu – BBC1 a BBC2, BBC 3 a BBC4, CBeebies, CBBC, BBC News 24 a BBC Parliament.
- Gorsafoedd radio – Radio1, Radio2, Radio 3, Radio 4, Radio Five Live, Five Live Sports Xtra, Radio 1Xtra, BBC6 Music, BBC7 a BBC Asian Network, yn ogystal â 38 o orsafoedd radio lleol a chwe gorsaf arall ar gyfer y cenhedloedd.
- BBCi – gwasanaethau rhyngweithiol y BBC, gan gynnwys gwefannau, gwasanaethau symudol a theledu rhyngweithiol.
- Yn ogystal, mae'r BBC yn rhedeg World Service a rhai gorsafoedd teledu mewn gwledydd eraill (fel BBC America) ac mae ganddo adrannau sy'n gwerthu pethau fel DVDs neu sy'n cynhyrchu cylchgronau fel The Radio Times.

Pwy sy'n talu am y BBC?
Chi. Ni. Bron pob cartref yn y DU sydd â theledu.

Os oes gennych deledu lliw yn eich cartref, y ffi am y drwydded deledu eleni yw £116. Os oes gennych deledu du a gwyn, mae'r ffi yn £38.50. Bydd y prisiau hyn yn codi ychydig yn ystod mis Ebrill 2004.

Nid yw'r rhai dros 75 oed yn talu'r ffi, mae rhai pensiynwyr a phobl anabl yn talu £5 a chaiff pobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall ostyngiad o 50%.

Y llynedd, enillodd y BBC £2,638 miliwn mewn ffioedd am y drwydded deledu ac £170 miliwn arall o werthu pethau fel rhaglenni teledu a DVDs yn y DU ac mewn gwledydd eraill.